Cofnodion Cyfarfod Blynyddol CYNGOR SIR CEREDIGION
A gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor - Penmorfa ac o bell ar
Ddydd Gwener, 27ain Mai, 2022

YN BRESENNOL: Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Steve Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hag Harris, Keith Henson, Geraint Wyn Hughes, Hugh R M Hughes, Chris James, Gwyn James, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Caryl Roberts, John Roberts, Wyn Thomas, Matthew Vaux a Carl Worrall

(2.00 - 2.40pm)

Gweithdrefn
Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Paul Hinge, bawb l'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

1 Ymddiheuriadau a materion personol
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Sian Maehrlein, Mark Strong ac Alun Williams am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

2 Anerchiad gan y Cynghorydd Paul Hinge ynglŷn â'i flwyddyn fel Cadeirydd y Cyngor
Diolchodd y Cynghorydd Paul Hinge i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys yr holl Aelodau, ei Is-Gadeirydd y Cynghorydd Ifan Davies, ei gonsort Angharad Lewis a'r Caplan y Parch. Richard Lewis.

Wrth fyfyrio ar ei flwyddyn yn y swydd, cyfeiriodd at y gwahanol swyddogaethau yr oedd wedi'u mynychu a dywedodd ei bod wedi bod yn fraint cynrychioli'r Cyngor ar yr achlysuron hyn. Roedd y rhain yn cynnwys y Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol yn Aberystwyth, cam y Frenhines o ras Tour de Britain a ddechreuodd o Benmorfa, Aberaeron, ail-gadarnhau Cyfamod Lluoedd Arfog Ceredigion ar fwrdd HMS Tracker, agoriad swyddogol yr Ysgol Wyddoniaeth Filfeddygol ym Mhrifysgol Aberystwyth, a seremoni coffau 200 mlynedd ers arwyddo Siarter Frenhinol i Brifysgol Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan.

Diolchodd y Cynghorydd Paul Hinge i Swyddogion am eu holl gefnogaeth i sicrhau bod cyfarfodydd a gynhelir o bell yn rhedeg mewn modd llyfn a'i fod yn cael cefnogaeth dda yn ystod ei flwyddyn fel Cadeirydd.

3 Gwerthfawrogiad y Cyngor am wasanaeth y Cyn-Cadeirydd
Talodd y Cynghorydd Elizabeth Evans deyrnged i'r Cadeirydd, y Cynghorydd Paul Hinge am y gwasanaeth rhagorol a ddarparwyd ganddo yn ystod Blwyddyn Ddinesig 2021/22, gan ymgymryd â'i rôl gydag urddas mawr ac am ddangos parch i bob Aelod.

Cyflwynodd y Cynghorydd Ifan Davies Gadwyn Swyddfa a Phlac Cyn-Gadeirydd i'r Cynghorydd Paul Hinge.

4 Ethol y Cynghorydd Ifan Davies yn Gadeirydd y Cyngor am y Flwyddyn Fwrdeistrefol ddilynol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Rhodri Evans a'i eilio gan y Cynghorydd Keith Evans a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol y dylai'r Cynghorydd Ifan Davies gael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig ddilynol, 2022/23.

5 Datganiad o Dderbyn y Swydd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Ifan Davies

Cyflwynwyd Cadwyn o'r Swydd i'r Cadeirydd newydd ei ethol a gwnaeth ei ddatganiad o dderbyn swydd ac annerch y Cyngor.

Cyflwynwyd Arwydd o'r Swyddfa i Gonsort y Cadeirydd, Mrs Iona Davies.

6 Cadeirydd y Cyngor yn annerch y Cyfarfod

Diolchodd y Cynghorydd Ifan Davies i'r Cynghorydd Paul Hinge am ei waith caled a'i ymrwymiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Diolchodd i'r Cynghorwyr Rhodri Evans a Keith Evans am eu geiriau caredig a llongyfarchodd yr holl Aelodau ar gael eu hethol i'r Cyngor a chroesawodd yr holl Aelodau newydd.

7 Ethol y Cynghorydd Maldwyn Lewis yn Is-gadeirydd y Cyngor am y Flwyddyn Fwrdeistrefol ddilynol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Bryan Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Gareth Davies a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol y dylid ethol y Cynghorydd Maldwyn Lewis yn Is-Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig ddilynol.

8 Datganiad o Dderbyn y Swydd gan yr Is-Gadeirydd, Y Cyngorydd Maldwyn Lewis

Gwnaeth yr Is-Gadeirydd newydd ei Ddatganiad o Dderbyn y Swydd ac fe'i cyflwynwyd gyda'r Arwydd o'r Swydd gan y Cadeirydd. Cyflwynwyd Arwydd o'r Swydd i Gonsort yr Is-Gadeirydd, y Parchedig Carys Ann.

9 Hysbysiad o benodi Caplan y Cadeirydd am y Flwyddyn Fwrdeistrefol ddilynol

Cadarnhaodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Ifan Davies y Parchedig Aled Wyn Lewis fel ei Gaplan ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig nesaf.

10 Anerchiad gan Arweinydd y Cyngor Sir, y Cynghorydd Bryan Davies

Croesawodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies yr Arglwydd Raglaw, yr Uchel Siryf, Elin Jones AC, gwesteion, swyddogion a chyd-Aelodau i'r cyfarfod. Llongyfarchodd y Cynghorydd Ifan Davies ar gael ei ethol yn Gadeirydd, gan nodi y byddai hon yn flwyddyn bwysig i Geredigion wrth groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Dregaron.

Nododd ei werthfawrogiad i'r Cyn Gadeirydd, y Cynghorydd Paul Hinge am gadeirio cyfarfodydd gydag urddas a phroffesiynoldeb, a chroesawodd y

Cyn-Gynghorydd, Rowland Rees-Evans yn ôl i'r Siambr yn ei rôl newydd fel Uchel Siryf. Diolchodd i'r Cyn-Arweinydd, Ellen ap Gwynn a'r Cyn Ddirprwy Arweinydd Ray Quant MBE, gan nodi bod y Cabinet newydd yn edrych ymlaen at fod mor dryloyw â phosibl ac yn agored i drafod syniadau gyda'r holl Aelodau er budd Ceredigion. Diolchodd hefyd i'r holl Aelodau blaenorol am eu cyfraniadau yn eu wardiau lleol yn ogystal â'r sir gyfan.

Cyfeiriodd at yr uchafbwyntiau yn ystod y weinyddiaeth flaenorol, gan gynnwys Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, parhad prosiect Cylch Caron ac at gynllun Arfor. Nododd fod Ceredigion wedi arwain y ffordd o ran ailgylchu a gobeithiai y byddai Ceredigion hefyd yn arwain y ffordd o ran rheoli carbon. Nododd fod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn heriol iawn a diolchodd i holl staff y Cyngor, gwirfoddolwyr a grwpiau amrywiol sydd wedi gweithio'n ddiflino i helpu pobl Ceredigion.

Mae sawl prosiect ar y gorwel a fydd yn cyfrannu at yr economi, gan ddenu a chadw pobl ifanc yng Ngheredigion, gan wneud Ceredigion yn un o'r siroedd gorau i fyw ynddi a nododd ei fod yn falch o fod yn rhan o dîm sy'n gweithio er budd ei drigolion.

11 Penodi Aelodau o'r Cyngor i Bwyllgorau'r Cyngor ar gyfer y Flwyddyn Fwrdeistrefol ddilynol

PENDERFYNWYD cadarnhau Aelodaeth Pwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r rhestr a ddosbarthwyd yn y cyfarfod.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2022

CADEIRYDD: _____